YSGOL BRO HYDDGEN
Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Gwefan: www.brohyddgen.powys.sch.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.

20 Mawrth 2020

Annwyl Rieni / Gofalwyr

**Diweddariad**

**Darparu Gofal i Blant Gweithwyr Allweddol**

Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a'r awdurdod Addysg Lleol, bydd yr ysgol ar agor i blant **Gweithwyr Allweddol** a phlant mewn gofal **YN UNIG**, ddydd Llun a dydd Mawrth 23 & 24 Mawrth. Wedi hynny, bydd yr Awdurdod Lleol yn aseinio nifer gyfyngedig o ganolfannau i darparu gofal, gyda chefnogaeth staff ysgolion o bob rhan o'r awdurdod.

Am ddiffiniad o **Weithwyr Allweddol** gweler: https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-maintaining-educational-provision/guidance-for-schools-colleges-and-local-authorities-on-maintaining-educational-provision

Os ydych chi'n syrthio i'r categori ***Gweithiwr Allweddol***, sydd a phlentyn sydd **DDIM** yn y categori mewn pryder, ac mae angen gofal ar eich plentyn/plant, gofynnwn yn garedig i chi **cwblhau'r ddolen Survey Monkey ar dudalen we'r ysgol** ar y cyfle cyntaf posib er mwyn i ni drefnu bod staff ar gael i warchod eich plant. Gofynnwn i chi hefyd ystyried yn ofalus y cyngor a'r canllaw a geir yn y ddolen uchod, ac yn benodol:

- ***Os oes unrhyw bosibilrwydd, dylid cadw eich plant gartref***
  - ***Y lleia o blant sydd yn yr ysgol, y lleia yw'r peryg o ledaenu'r feirws***
- ***Ni ddylid dibynnu ar bobl sydd wedi eu cynghori'n benodol i gadw pellter cymdeithasol gofalus h.y. pobl dros 70 oed, ffrindiau a theulu sydd â chyflwr iechyd neilltuol***
- ***Dylid gwneud bob dim posib i sicrhau bod plant hefyd yn ymarfer yr un egwyddorion cadw pellter cymdeithasol ag oedolion***
  - ***Mewn gair mae gofyn i bawb newid eu harferion cymdeithasol***

**Plant Sy'n Derbyn Prydau Ysgol am Ddim**

Bydd yr ysgol yn darparu bocs bwyd i blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Os ydych yn gymwys ac am dderbyn y ddarpariaeth yma, gofynnwn i chi roi gwybod i'r ysgol ac i ddod i'r **Campws Cynradd** i gasglu'r bwyd rhwng 11.00am – 1.00pm

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod yr amser argyfyngus yma yn ein hanes.

Yn gywir

Dafydd M B Jones
Pennaeth

360 degree safe Cymru
ACTIVE MARC CYMRU
Eco-Schools
Erasmus+
5x60 Ewch gyda'r llif Get with it
chwaraeon sport powys
sportwales chwaraeoncymru
INVESTORS IN PEOPLE
COBWEB
Playful Coding